CYTUNDEB FFRAMWAITH AR REOLAETHAU SWYDDOGOL AR FWYD A BWYD ANIFEILIAID GAN AWDURDODAU LLEOL

Diweddariad Pump, Ebrill 2010

CYNNWYS

Rhagair

Pennod Un Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth

Pennod Dau Y Safon

Pennod Tri Monitro Awdurdodau Lleol

Pennod Pedwar Cynllun Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol

Tabl o ddiweddariadau

RHAGAIR

Mae'r Cytundeb Fframwaith ar reolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid, gan awdurdodau lleol, wedi'i ddatblygu mewn ymgynghoriad â'r awdurdodau lleol eu hunain, y cymdeithasau llywodraeth leol a'r cyrff proffesiynol. Mae wedi'i gymeradwyo gan y Grŵp Cyswllt Gorfodi[1].

Dyma Ddiweddariad rhif 5 i'r Cytundeb gwreiddiol (a gyflwynwyd yn 2001) ac mae wedi bod ar waith ers **1 Ebrill 2009**.

Mae'r Cytundeb Fframwaith yn amlinellu'r hyn mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd (ASB) yn ei ddisgwyl gan awdurdodau lleol wrth iddynt weithredu rheolaethau swyddogol cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Mae'r Diweddariad hwn wedi'i ddiweddaru i ystyried Gweledigaeth Newydd[2] yr Asiantaeth ar orfodi cyfraith bwyd, a Fframwaith yr ASB ar gyfer Gwneud Penderfyniadau Rheoleiddio[3], sy'n ystyried egwyddorion rheoleiddio da ac agenda gwell rheoleiddio y Llywodraeth.

Mae'r Cytundeb yn amlinellu gofynion cynllunio a gweithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid yn seiliedig ar y Codau Ymarfer statudol cyfredol. Dylai'r darpariaethau hyn gael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gwasanaeth awdurdodau sydd ar waith ers **1 Ebrill 2009**.

Mae manylion y system fonitro newydd ar gyfer gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol, a'r trefniadau archwilio newydd, ar gael fel dogfennau ar wahân ar wefan yr Asiantaeth.

Mae'r Grŵp Cyswllt Gorfodi'n parhau i fod yn gyfrifol am oruchwylio gweithrediad a chwmpas y Cytundeb Fframwaith, trwy ei Is-Grŵp ar y Cytundeb Fframwaith.

1 http://www.food.gov.uk/enforcement/enfcomm/elg/
2 Amlinellir Gweledigaeth Newydd yr Asiantaeth ar gyfer rheoleiddio cyfraith bwyd ym mhapur PRO 06/10/02, a gymeradwywyd gan Fwrdd yr ASB ar 12 Hydref 2006. Mae'r papur hwn ar gael ar wefan yr Asiantaeth.
3 http://food.gov.uk/multimedia/pdfs/FSAregframework.pdf

Pennod Un: Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth

Cyflwyniad

1. Mae'r canllawiau hyn yn darparu gwybodaeth am sut y dylid strwythuro cynlluniau gwasanaeth ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid, a beth ddylent ei gynnwys. Y cynlluniau gwasanaeth a ddatblygir o dan y trefniadau hyn fydd y sail ar gyfer gwaith monitro ac archwilio awdurdodau lleol gan yr ASB. Dylid darllen y canllawiau hyn ochr yn ochr â Phennod Dau - "Y Safon".

Cefndir

2. Mae gan yr ASB swyddogaeth allweddol i'w chyflawni fel yr awdurdod cymwys canolog sy'n goruchwylio rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a gyflwynir gan awdurdodau lleol. Mae hefyd yn gweithio mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i'w helpu i weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid. Felly, mae'r Asiantaeth yn rhagweithiol o ran pennu a monitro safonau ac archwilio darpariaeth rheolaethau swyddogol gan awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod y gweithgarwch hwn yn effeithiol, yn seiliedig ar risg, yn gymesur ac yn gyson. Mae pwerau sy'n galluogi'r Asiantaeth i fonitro ac archwilio awdurdodau lleol wedi'u cynnwys yn Neddf Safonau Bwyd 1999 ac yn Rheoliadau Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid.

3. Ystyrir bod cynlluniau gwasanaeth yn rhan bwysig o'r broses o sicrhau bod safonau a blaenoriaethau cenedlaethol yn cael eu trafod a'u gweithredu'n lleol. Bydd cynlluniau gwasanaeth hefyd yn helpu awdurdodau lleol i:

   - ddilyn egwyddorion rheoleiddio da;
   - canolbwyntio ar faterion cyflenwi allweddol a chanlyniadau;
   - darparu cysylltiad hanfodol gyda chynlluniau corfforaethol ac ariannol;
   - pennu amcanion ar gyfer y dyfodol a nodi materion pwysig sy'n croesi ffiniau gwasanaeth;
   - darparu dull o reoli perfformiad a chymharu perfformiadau;
   - darparu gwybodaeth am ddarpariaeth gwasanaeth awdurdod i randdeiliaid, gan gynnwys busnesau a defnyddwyr.

4. Mae'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a Bwyd Anifeiliaid yn rhoi hyblygrwydd i awdurdodau lleol o ran sut i weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid. Dylai'r cynllun gwasanaeth amlinellu sut ac ar ba lefel y darperir rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid, yn unol â'r Codau Ymarfer. Wrth ddatblygu ei gynllun gwasanaeth, dylai awdurdod egluro pa gyfnod a gwmpesir gan y cynllun a pha drefniadau sydd ar waith i adolygu a diweddaru'r cynllun yn rheolaidd.

5. Mae'r canllawiau hyn, y dylid eu darllen ochr yn ochr â Phennod Dau - "Y Safon", yn darparu templed cynllun gwasanaeth i awdurdodau lleol, a hynny er mwyn sicrhau bod pob maes yn ymwneud â rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael sylw yn y Safon yn cael eu cynnwys yn y cynllun, ac i ddarparu ar gyfer amcanion a ddiffinnir yn lleol. Bydd y templed yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynnwys y canlynol yn eu cynlluniau gwasanaeth:

- gwybodaeth am y gwasanaethau maent yn eu darparu;
- dull darparu'r gwasanaethau hynny, gan gynnwys gwahanol ofynion y Safon;
- y dull o gyflawni unrhyw dargedau perfformiad neu safonau perfformiad perthnasol;
- adolygiad o berfformiad er mwyn mynd i'r afael ag unrhyw anghydfod mewn perthynas â bodloni gofynion y cynllun gwasanaeth a nodi meysydd i'w gwella.

Gwell Rheoleiddio

6. Dylai awdurdodau lleol ystyried agenda gwell rheoleiddio y Llywodraeth wrth gynllunio a darparu eu gwasanaethau. Dyma'r pum egwyddor rheoleiddio da sy'n allweddol i'r agenda hon:

- targedu (defnyddio dull seiliedig ar risg);
- cymesuredd (e.e. dim ond ymyrryd pan fo angen);
- atebolrwydd (esbonio a chyfiawnhau lefelau gwasanaeth a phenderfyniadau i'r cyhoedd a rhanddeiliaid);
- cysondeb (rhoi rheoliadau ar waith yn gyson i bob parti);
- tryloywder (bod yn agored a hygyrch).

7. Er mwyn cyflawni'r egwyddorion hynny, mae rhaglen gwell rheoleiddio y Llywodraeth yn cynnwys nifer o fentrau y bydd angen i awdurdodau lleol eu hystyried yn eu cynlluniau gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid. Gan fod diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid yn faterion datganoledig, bydd natur ac effaith y mentrau hyn yn amrywio mewn gwahanol rannau o'r Deyrnas Unedig.

8. Mae targedu adnoddau lle maent yn fwyaf effeithiol ac mewn meysydd risg uchel yn hanfodol er mwyn darparu gwasanaeth effeithiol i'r cyhoedd. Dylid sicrhau mai'r canlyniad dymunol, a all amrywio wrth i amgylchiadau newid, yw'r dylanwad allweddol wrth i awdurdodau lleol ddewis yr ymyriadau priodol i'w defnyddio. Dylid rhoi sylw i ganlyniadau tymor hir, yn ogystal â chanlyniadau tymor byr.

Fformat Cyffredin

9. Mae cynlluniau gwasanaeth yn mynegi ymrwymiad awdurdodau lleol i ddatblygu'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid. Fodd bynnag, mae hi hefyd yn bwysig ystyried sut mae'r ASB yn defnyddio'r cynlluniau. Bydd yr Asiantaeth yn gofyn am wybodaeth am weithgareddau rheoli bwyd a bwyd anifeiliaid swyddogol mewn fformat cyffredin fel y gall asesu sut mae awdurdodau lleol yn darparu'r gwasanaeth. Yn ogystal, efallai y bydd cynlluniau gwasanaeth o ddefnydd i awdurdodau lleol eraill a fydd yn ei chael hi'n haws dadansoddi a chymharu eu perfformiad gyda'r fformat cyffredin. Felly, mae'r canllawiau wedi'u strwythuro mewn fformat cyffredin – gyda phenawdau pennod a phwnc a disgrifiad cyffredinol o gynnwys pob un. Nid oes bwriad i ddileu hyblygrwydd awdurdodau lleol i gynnwys eitemau ychwanegol o dan benawdau penodol.

10. Cydnabyddir bod awdurdodau lleol wedi bod â chynlluniau gwasanaeth ers nifer o flynyddoedd, ac efallai bod ganddynt arddull neu dempledi corfforaethol yr hoffent eu cadw. Cydnabyddir hefyd fod rhai awdurdodau lleol yn defnyddio'r prosesau cynllunio ac adolygu ar wahanol adegau ac yn cyhoeddi canlyniadau adolygiad fel dogfen ar wahân. Mae rhai awdurdodau lleol yn cynnwys eu cynlluniau ar gyfer y gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid fel rhan o gynllun mwy o wasanaethau'r awdurdod. Er bod gan awdurdodau lleol hyblygrwydd i barhau gyda fformat corfforaethol, byddant yn sicrhau bod y gofynion gwybodaeth yn y canllawiau hyn wedi'u cynnwys. Os bydd cynlluniau gwasanaeth bwyd anifeiliaid neu fwyd yn rhan o gynlluniau corfforaethol ehangach, bydd modd adnabod y manylion bwyd a bwyd anifeiliaid ar wahân yn eu dogfennau cynllunio.

11. Hefyd, yn yr achosion hynny lle mae sawl awdurdod yn uno fel un awdurdod, dylent sicrhau bod gofynion y canllawiau hyn wedi'u cynnwys a'u nodi ar wahân yn nogfennau cynllunio'r awdurdod unedol newydd. Os bydd gwasanaeth gorfodi'n cael ei rannu rhwng awdurdodau, dylai gofynion y canllawiau hyn gael eu nodi'n glir yn nogfennau cynllunio pob awdurdod.

12. Dylai awdurdodau gwmpasu'r meysydd canlynol yn eu cynlluniau gwasanaeth ar gyfer rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid:

    * Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

    * Cefndir

    * Darpariaeth Gwasanaeth

    * Adnoddau

    * Asesiad o Ansawdd

    * Adolygu

Mae canllawiau pellach ar gynnwys y cynllun ym mhob un o'r meysydd hyn wedi'u nodi dros y dudalen. Fodd bynnag, gall pob awdurdod ddewis ei ffordd ei hun o drefnu'r cynlluniau hyn – fel rhoi rhai agweddau mewn cynlluniau rheoli, a rhai mewn cynlluniau gweithredol.

Cymeradwyaeth gan Aelodau

13. Mae gan awdurdodau yr hyblygrwydd i benderfynu'n lleol a ddylai cynlluniau gwasanaeth gael eu cymeradwyo gan aelodau. I helpu i sicrhau tryloywder ac atebolrwydd lleol, ac i ddangos eu cyfraniad at gynllun corfforaethol yr awdurdod, dylai adolygiadau perfformiad a chynlluniau gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid gael eu cymeradwyo ar y lefel berthnasol ar gyfer yr awdurdod lleol hwnnw, naill ai gan aelodau, fforwm aelodau neu ar lefel uwch swyddog addas. Dylid cadw cofnodion i ddangos bod cynlluniau gwasanaeth wedi derbyn cymeradwyaeth briodol.

Canllawiau Cynllun Gwasanaeth Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a Bwyd Anifeiliaid

1. Nodau ac Amcanion y Gwasanaeth

1.1 Nodau ac Amcanion	Datganiad o nodau ac amcanion y gwasanaeth.
1.2 Cysylltiadau ag amcanion a chynlluniau corfforaethol	Dylai'r adran hon nodi sut mae'r cynllun(iau) gwasanaeth yn rhan o broses cynllunio corfforaethol yr Awdurdod a sut maent yn cyfrannu at gyflawni amcanion yr Awdurdod. Dylai hyn gynnwys bodloni unrhyw ddangosydd cenedlaethol perthnasol. Dylai hefyd nodi unrhyw gysylltiad gyda chynlluniau eraill sydd wedi'u mabwysiadu gan yr Awdurdod.

2. Cefndir

2.1 Proffil yr Awdurdod Lleol	Dylai'r adran hon gynnwys manylion poblogaeth, maint a natur yr Awdurdod.
2.2 Strwythur Sefydliadol	Siart syml yn dangos gwasanaethau'r cyngor a strwythur pwyllgorau sy'n dangos sut mae'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yn perthyn i'r darlun cyfan. Dylai'r strwythur nodi'r rheolwr/rheolwyr sy'n gyfrifol am weithredu rheolaethau swyddogol ar fwyd a bwyd anifeiliaid a'r swyddog(ion) sydd â chyfrifoldeb arbenigol dros hylendid bwyd, safonau bwyd a/neu fwydydd anifeiliaid os yn wahanol, a'r ddarpariaeth a wneir ar gyfer gwasanaethau arbenigol a ddarperir, er enghraifft, gan ddadansoddwyr cyhoeddus, archwilwyr bwyd a dadansoddwyr amaethyddol.
2.3 Cwmpas y Gwasanaeth Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	Datganiad cryno sy'n amlinellu cwmpas y cyfrifoldebau a'r gwasanaeth a ddarperir. Dylai hyn nodi a yw rhai meysydd o'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid yn cael eu darparu gan sefydliad arall e.e. contractwyr. Gall unrhyw wasanaethau eraill a ddarperir ochr yn ochr â'r gwasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid e.e. arolygiadau iechyd a diogelwch, gael eu disgrifio yma.
2.4 Y Galw ar y Gwasanaeth Bwyd a bwyd anifeiliaid	Dylai'r adran hon gynnwys amlinelliad cryno o: • broffil y sefydliadau • nifer y sefydliadau cymeradwy neu gofrestredig yn ardal yr Awdurdod; • unrhyw ofynion lleol penodol sy'n gysylltiedig â phrosesau arbenigol neu gymhleth.

	Dylai'r adran roi manylion: • y mannau darparu gwasanaeth a ddefnyddir gan yr Awdurdod, • pryd mae'r gwasanaeth ar gael yn y mannau hyn. Mae'r adran hon hefyd yn galluogi'r Awdurdod i ddisgrifio unrhyw ffactorau allanol a all effeithio ar ei wasanaeth. Er enghraifft: • canran y perchnogion busnes nad Saesneg yw eu hiaith gyntaf, • canran y sefydliadau bwyd sy'n gweithgynhyrchu bwyd, • cyfrifoldebau bwyd anifeiliaid/bwyd sy'n cael ei fewnforio, neu • weithgareddau tymhorol.
2.5 Polisi Rheoleiddio	Datganiad cryno yn cyfeirio at bolisi gorfodi'r Awdurdod.

3. Darpariaeth Gwasanaeth

3.1 Ymyriadau mewn sefydliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid	Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod ar ymyriadau a sut y cânt eu dewis mewn achosion unigol, gan gynnwys manylion y rhaglen ymyriadau mewn sefydliadau bwydydd anifeiliaid/bwyd. Dylai hyn gynnwys proffil y sefydliadau, nifer yr ymyriadau y bwriedir eu cynnal, amcangyfrif o nifer yr ail-ymweliadau a wneir ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen e.e. staff. Dylai'r cynllun hefyd roi manylion unrhyw weithgarwch ymyrryd wedi'i dargedu y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei gynnal, gan gynnwys unrhyw adnoddau ychwanegol sydd eu hangen; gallai hyn gynnwys gwaith prosiect penodol. Dylai'r Awdurdod nodi unrhyw flaenoriaethau'n ymwneud â chanlyniadau lleol neu genedlaethol, fel cydymffurfio â deddfwriaeth newydd neu gydymffurfio'n well â deddfwriaeth gyfredol a mentrau eraill y llywodraeth ganolog. Dylai'r adran gynnwys, lle bo'n briodol, y trefniadau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud i sicrhau bod ganddo fynediad i arbenigedd priodol digonol fel y gall unrhyw brosesau arbenigol a nodir yn Adran 2 gael eu harolygu'n gymwys.
3.2 Cwynion am Fwyd a Bwyd Anifeiliaid	Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod ar ymchwilio i gwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid, gan gynnwys amcangyfrif yn seiliedig ar dueddiadau blynyddoedd blaenorol o'r galw tebygol am y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen.

3.3 Egwyddor yr Awdurdod Cartref a Chynllun y Prif Awdurdod	Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod ar Egwyddor yr Awdurdod Cartref ac, os yn berthnasol, Cynllun y Prif Awdurdod, gan gynnwys amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn cyfarfod a chynghori'r busnesau hynny y mae'n gweithredu ar eu rhan, datblygu cynlluniau ymyrryd ar gyfer y busnesau hynny y mae'n gweithredu fel eu Prif Awdurdod ac ymateb i ymholiadau gan awdurdodau gorfodi eraill.
3.4 Cyngor i Fusnesau	Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod ar gyngor i fusnesau (fel rhan o'r polisi cyffredinol ar ymyriadau), gan gynnwys amcangyfrif o nifer y cysylltiadau busnes a'r adnoddau sydd eu hangen er mwyn darparu'r gwasanaeth. Dylai'r adran hon gynnwys, lle bo'n briodol, unrhyw fewnbwn sydd gan yr Awdurdod ar fforymau neu bartneriaethau busnes.
3.5 Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid	Datganiad mewn perthynas â pholisi samplu'r Awdurdod, gan gynnwys sail y rhaglen samplu ac amcangyfrif o nifer y samplau a fydd yn cael eu cymryd gan sefydliadau, neu a gyflwynir mewn perthynas â chwynion, ac unrhyw ddyraniad adnoddau perthnasol, gan gynnwys staff. Dylai hefyd roi manylion y trefniadau mae'r Awdurdod wedi'u gwneud ar gyfer dadansoddi a/neu archwilio'r samplau.
3.6 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus yn Ymwneud â Bwyd	Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod ar ymchwilio i hysbysiadau gwenwyn bwyd a rheoli achosion o glefydau, gan gynnwys amcangyfrif yn seiliedig ar dueddiadau blynyddoedd blaenorol o'r galw tebygol am y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen.
3.7 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd Anifeiliaid/Bwyd	Datganiad mewn perthynas â pholisi'r Awdurdod ar drin rhybuddion bwyd i gadarnhau ei fod yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer perthnasol, amcangyfrif o'r galw tebygol am y gwasanaeth ac amcangyfrif o'r adnoddau sydd eu hangen.

3.8 Ymwneud â Sefydliadau Eraill	Dylai'r Awdurdod amlinellu'r trefniadau y mae wedi'u gwneud i sicrhau bod camau gorfodi sy'n cael eu gweithredu yn ei ardal yn gyson â chamau awdurdodau lleol cyfagos. Dylai'r adran hon gynnwys: • unrhyw gysylltiad rhwng yr Awdurdod ac awdurdodau eraill; • unrhyw gysylltiad, lle'n briodol, gydag LBRO; • unrhyw drefniadau gydag arolygiaethau llywodraeth neu gyrff rheoli swyddogol eraill i gydgysylltu rheolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid; • unrhyw gynrychiolaeth ar bwyllgorau neu weithgorau'r Llywodraeth; • cysylltiad gyda gweithgorau cyrff proffesiynol; • cysylltiad gyda grwpiau cynghori LACORS a chyrff tebyg neu gysylltiedig, ac unrhyw gyfraniad atynt; • unrhyw gysylltiad ffurfiol gyda grwpiau gwirfoddol a chyrff sector cyhoeddus eraill e.e. Awdurdodau Iechyd; • unrhyw gysylltiad ffurfiol gyda gwasanaethau eraill yn yr Awdurdod e.e. adolygiad o geisiadau i'r adran rheoli adeiladu; • unrhyw ymrwymiad i grwpiau lleol/rhanbarthol. Dylid cynnwys amcangyfrif o'r dyraniad adnoddau.
3.9 Gwaith hyrwyddo Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid, ac ymyriadau rheoli answyddogol eraill	Datganiad o unrhyw waith hyrwyddo diogelwch bwyd anifeiliaid/bwyd, neu waith casglu gwybodaeth, y mae'r Awdurdod yn bwriadu ei gyflawni yn y flwyddyn a'r mesurau y bydd yn eu defnyddio i werthuso ei effeithiolrwydd, gydag amcangyfrif o'r dyraniad adnoddau, gan gynnwys staff, i gyflawni'r gwaith hwn.

4. Adnoddau

4.1 Dyraniad Ariannol	Dylai'r adran hon amlinellu lefel gyffredinol y gwariant o ran darparu'r gwasanaeth ac archwilio'r duedd o ran twf neu ostyngiad mewn termau real. Dylid rhoi manylion y costau ansefydlog, gan gynnwys staff, teithio a chynhaliaeth, cyfarpar, gan gynnwys buddsoddiad mewn TG, cyllidebau samplu a'r ddarpariaeth ariannol a wneir gan yr Awdurdod ar gyfer unrhyw gamau cyfreithiol sydd angen eu cymryd fel rhan o'i swyddogaeth orfodi.

4.2 Dyraniad Staff	Datganiad o nifer y swyddi sydd eu hangen i ddarparu'r gwasanaeth a nifer y staff sy'n gweithio ar orfodi cyfraith bwyd anifeiliaid/bwyd a materion cysylltiedig (cyfwerth ag amser llawn); dylai hyn wahaniaethu rhwng staff cymwys a staff cymorth. Dylid mynegi'r ffigurau hyn o ran lefelau cymhwysedd, gan gyfeirio at y Codau Ymarfer priodol, gan gynnwys staff cymorth.
4.3 Cynllun Datblygu Staff	Datganiad mewn perthynas ag unrhyw hyfforddiant parhaus perthnasol, gan gynnwys hyfforddiant a ddarperir yn fewnol ac yn allanol ar gyfer swyddogion awdurdodedig a swyddogion dan hyfforddiant yn y flwyddyn i ddod.

5. Asesiad o Ansawdd

5.1 Asesu ansawdd a gwaith monitro mewnol	Datganiad yn nodi'r camau i'w cymryd i asesu ansawdd gwasanaeth yr Awdurdod, gan gynnwys unrhyw drefniadau monitro perthnasol a ddatblygir gan yr Awdurdod i asesu perfformiad yn erbyn y Safon. Dylai hyn gynnwys unrhyw drefniadau adolygu gan gymheiriaid neu archwilio rhyng-awdurdod. Bydd yr Awdurdod hefyd am gynnwys manylion unrhyw fodelau a achredir yn allanol neu fodelau hunan-asesu a ddefnyddir.

6. Adolygu

6.1 Adolygu yn erbyn y Cynllun Gwasanaeth	Dylai'r Awdurdod amlinellu'r broses ar gyfer adolygu ac adrodd ar ddarpariaeth y cynllun gwasanaeth. Dylai hyn gynnwys gwybodaeth am berfformiad y flwyddyn flaenorol yn erbyn y cynllun gwasanaeth ac unrhyw dargedau perfformiad a safonau perfformiad a chanlyniadau a dargedir a nodir.
6.2 Nodi unrhyw Amrywiad ar y Cynllun Gwasanaeth	Dylai'r adolygiad nodi unrhyw le yr oedd yr Awdurdod yn amrywio o'i gynllun gwasanaeth a, lle bo'n briodol, y rhesymau dros yr amrywiad hwnnw. Gall yr Awdurdod bennu bod gwaith ychwanegol a gyflawnwyd mewn meysydd gorfodi eraill wedi cyflawni'r un amcan. Dylid nodi hyn yn glir yn y rhan hon o'r cynllun.
6.3 Meysydd i'w Gwella	Dylai'r Awdurdod amlinellu cynlluniau ar gyfer unrhyw welliant neu ddatblygiad perthnasol a nodir yn ôl yr angen gan yr adolygiad neu'r asesiad o ansawdd.

Pennod Dau: Y Safon

Cyflwyniad

Mae'r Bennod hon yn cyflwyno'r rhwymedigaethau ar awdurdodau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid mewn perthynas â rheolaethau swyddogol sy'n codi o ddeddfwriaeth gyfredol, y Codau Ymarfer statudol a chanllawiau cysylltiedig, ac yn amlinellu'r gofynion ar gyfer cynllunio, rheoli a darparu gwasanaethau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid awdurdodau lleol.

Bydd angen i awdurdodau lleol sicrhau bod y gwasanaethau maent yn eu darparu i gefnogi busnesau a sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r gyfraith yn mynd i'r afael â'r pecyn cyfan a amlinellir yn y Safon, a'u bod yn darparu camau gweithredu a gweithgareddau priodol yn unol â'r polisïau gwell rheoleiddio sy'n berthnasol yn eu rhan nhw o'r Deyrnas Unedig.

Y Safon

1 Cwmpas

Mae'r Safon hon yn rhoi manylion y trefniadau y dylai Awdurdod eu cyflwyno a'u gweithredu i orfodi hylendid bwyd, safonau bwyd, cyfraith bwyd anifeiliaid a deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio.

Mae'r Safon yn berthnasol i'r gweithgareddau hynny y dylai Awdurdod eu cynnwys yn ei wasanaeth bwyd anifeiliaid/bwyd. Mae cyfeiriadau at "Godau Ymarfer" yn y Safon yn golygu Cod Ymarfer Gorfodi Cyfraith Bwyd Anifeiliaid (Prydain) a'r Codau Ymarfer Cyfraith Bwyd a gyhoeddir ym mhob un o wledydd y Deyrnas Unedig, oni nodir yn wahanol.

2. Termau a diffiniadau

At ddiben y Safon hon, mae'r termau a'r diffiniadau canlynol yn berthnasol.

2.1 Awdurdod

Unrhyw awdurdod lleol y mae ei gyfrifoldebau'n cwmpasu naill ai gorfodi hylendid bwyd, safonau bwyd neu gyfraith bwydydd anifeiliaid, neu gyfuniad o'r gweithgareddau hynny. Mae hyn hefyd yn cynnwys awdurdodau iechyd porthladdoedd ac awdurdodau â phwyntiau mynediad ar gyfer bwydydd neu fwydydd anifeiliaid wedi'u mewnforio.

3 Trefniadaeth a Rheolaeth

3.1 Dylai'r Awdurdod lunio, dogfennu a gweithredu cynllun darparu gwasanaethau yn unol â'r Canllawiau Cynllunio Gwasanaeth ym Mhennod 1.

3.2 Dylai'r Awdurdod gynnal adolygiad o berfformiad o leiaf unwaith y flwyddyn yn seiliedig ar y cynllun darparu gwasanaethau. Yna, dylai ddogfennu'r adolygiad a'i gyflwyno i'w gymeradwyo naill ai gan y fforwm aelodau perthnasol neu, os yw'r gwaith o gymeradwyo a rheoli cynlluniau darparu gwasanaethau wedi'i ddirprwyo i uwch swyddogion, yr uwch swyddog perthnasol.

3.3 Bydd unrhyw amrywiad o ran bodloni'r cynllun darparu gwasanaethau yn cael sylw gan yr awdurdod yn ei gynllun gwasanaeth dilynol.

4 Adolygu a Diweddaru Polisïau a Gweithdrefnau wedi'u Dogfennu

4.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer pob un o'r gweithgareddau gorfodi sy'n cael sylw yn y Safon hon yn cael eu hadolygu'n rheolaidd, a phan gyflwynir newidiadau i ddeddfwriaeth neu ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

4.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu system reoli ar gyfer yr holl ddogfennaeth yn ymwneud â'i weithgareddau gorfodi. Pa bynnag gyfrwng a ddewisir, boed yn fformat electronig neu gopi caled, bydd y system yn sicrhau:

a) bod y copïau diweddaraf o'r ddogfennaeth briodol, gan gynnwys deddfwriaeth a chanllawiau, ar gael yn y lleoliadau perthnasol ac i'r holl staff perthnasol;

b) bod yr holl newidiadau neu ddiwygiadau i ddogfennau yn cael eu cwmpasu gan yr awdurdodiad cywir ac yn cael eu cyflawni'n ddi-oed i sicrhau eu bod ar gael ar yr adeg briodol;

c) nad yw dogfennau sydd wedi'u disodli'n cael eu defnyddio mwyach ledled yr Awdurdod.

5 Swyddogion Awdurdodedig

5.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn wedi'i dogfennu ar gyfer awdurdodi swyddogion yn seiliedig ar eu cymhwysedd ac yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol ac unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

5.2 Os yw'n gyfrifol am orfodi hylendid bwyd, safonau bwyd a/neu ddeddfwriaeth bwyd anifeiliaid, bydd yr Awdurdod yn penodi swyddog(ion) gyda gwybodaeth arbenigol i fod yn bennaf gyfrifol am y ddeddfwriaeth honno. Os oes gan yr Awdurdod gyfrifoldebau penodol, er enghraifft os yw'n bwynt mynediad i'r DU neu os oes ganddo sefydliadau sydd wedi'u cymeradwyo'n unol â Rheoliad (CE) Rhif 853/2004, dylai sicrhau bod gan swyddogion y wybodaeth arbenigol angenrheidiol.

5.3 Bydd yr Awdurdod yn penodi digon o swyddogion awdurdodedig i gyflawni'r gwaith a amlinellir yn y cynllun darparu gwasanaethau. Bydd lefel awdurdod a dyletswyddau swyddogion yn gyson â'u cymwysterau, eu hyfforddiant, eu profiad a'r Cod Ymarfer perthnasol.

5.4 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr holl swyddogion awdurdodedig a staff cymorth priodol yn derbyn yr hyfforddiant sydd ei angen arnynt i fod yn gymwys i ddarparu elfennau technegol a gweinyddol y gwaith y byddant yn rhan ohono, yn unol â'r Cod Ymarfer.

5.5 Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnod o gymwysterau, hyfforddiant a phrofiad perthnasol yr holl swyddogion awdurdodedig a staff cymorth priodol yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol.

6 Cyfleusterau a Chyfarpar

6.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr holl gyfleusterau a chyfarpar sydd eu hangen i sicrhau bod yr holl weithgareddau sy'n gysylltiedig â'r gwasanaeth yn cael eu darparu'n effeithiol ar gael.

6.2 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod yr holl gyfarpar yn cael ei gynnal a'i gadw a'i raddnodi'n gywir, ac na fydd yn cael ei ddefnyddio pan fydd yn ddiffygiol. I gefnogi'r

dasg hon, bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn wedi'i dogfennu, a ddylai gynnwys nodi cyfarpar, tystiolaeth o gynnal a chadw a graddnodi a chanlyniadau unrhyw wiriadau.

6.3 Bydd unrhyw becyn meddalwedd cyfrifiadurol neu ddull arall o weinyddu cofnodion a ddefnyddir gan yr Awdurdod yn ddibynadwy ac yn gallu darparu unrhyw wybodaeth y bydd yr Asiantaeth Safonau Bwyd yn gofyn amdani yn rhesymol. Caiff systemau o'r fath eu gweithredu yn y fath fodd fel y gallant ddarparu'r wybodaeth ofynnol i'r Asiantaeth.

6.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu systemau wrth gefn priodol ar gyfer unrhyw gronfeydd data electronig, a systemau neu weithdrefnau wedi'u dogfennu a gynlluniwyd i leihau'r perygl o lygredd neu golli gwybodaeth a gedwir ar ei gronfeydd data. Dylai'r Awdurdod sicrhau bod mesurau diogelwch rhesymol ar waith i atal pobl heb awdurdod rhag cael mynediad i gronfeydd data a'u diwygio.

7 Ymyriadau ac Arolygiadau mewn Sefydliadau Bwyd a Bwydydd Anifeiliaid

7.1 Bydd yr Awdurdod yn cynnal ymyriadau/arolygiadau (fel sy'n ofynnol gan y Cod Ymarfer perthnasol) ym mhob sefydliad hylendid bwyd, safonau bwyd a bwydydd anifeiliaid yn ei ardal, heb fod yn llai aml nag a bennir o dan y cynlluniau graddio ymyriadau a amlinellir yn y ddeddfwriaeth neu'r Codau Ymarfer perthnasol neu ganllawiau eraill a gyhoeddir yn ganolog.

7.2 Bydd yr Awdurdod yn cynnal ymyriadau/arolygiadau ac yn cymeradwyo neu gofrestru sefydliadau yn unol â'r ddeddfwriaeth a'r Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.

NODER: Mae sefydliadau'n cynnwys unrhyw longau neu awyrennau o ddisgrifiad a nodir yn y ddeddfwriaeth berthnasol.

7.3 Bydd yr Awdurdod yn asesu a yw sefydliadau a systemau yn ei ardal yn cydymffurfio â'r safonau a nodir yn y gyfraith.

NODER: Wrth asesu cydymffurfiaeth, bydd yr Awdurdod (fel sy'n ofynnol gan Erthygl 10(2) o Reoliad (CE) Rhif 882/2004) yn ystyried unrhyw Ganllawiau perthnasol sydd gan y Diwydiant ar Arferion Hylendid Da ac unrhyw ganllawiau perthnasol eraill a gyhoeddir yn ganolog.

Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau gweithredu priodol mewn perthynas ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth, yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod.

7.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer yr ystod o ymyriadau/arolygiadau a gynhelir.

7.5 Caiff arsylwadau a wneir a/neu ddata a gesglir yn ystod arolygiad/ymyrraeth eu cofnodi mewn ffordd amserol i atal colli gwybodaeth berthnasol. Bydd cofnodion cyfoes swyddogion o ymyriadau'n ddarllenadwy a chânt eu storio fel y gellir eu hadfer yn hawdd.

8 Cwynion am Fwyd, Bwyd Anifeiliaid a Sefydliadau Bwyd

8.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu polisi a gweithdrefn(au) wedi'u dogfennu mewn perthynas â chwynion am fwyd a bwyd anifeiliaid sy'n tarddu yn y DU, a bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n tarddu o aelod-wladwriaethau eraill yr UE neu o drydydd gwledydd, a chwynion yn erbyn sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid. Dylai gweithdrefnau gwmpasu unrhyw drefniadau cyfeirio at awdurdodau mewndirol a/neu awdurdodau sy'n gyfrifol am reolaethau bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u mewnforio yn y pwynt mynediad i'r DU.

8.2 Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod.

8.3 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau priodol mewn perthynas â chwynion a dderbynnir yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod.

9 Cynllun y Prif Awdurdod ac Egwyddor yr Awdurdod Cartref

9.1 Os bydd partneriaeth Prif Awdurdod wedi'i sefydlu ar gyfer busnes, o dan amodau Deddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008, ac unrhyw Orchmynion o dan y Ddeddf honno, bydd y Prif Awdurdod yn gweithredu'n unol â'r gofynion a'r canllawiau perthnasol. Gall partneriaeth Prif Awdurdod gwmpasu'r ystod lawn o wasanaethau rheoleiddiol, neu swyddogaethau penodol, fel iechyd a diogelwch; diogelwch bwyd neu labelu cynnyrch. Os na fydd partneriaeth Prif Awdurdod wedi'i sefydlu ar gyfer busnes ar gyfer swyddogaeth benodol, bydd Egwyddor yr Awdurdod Cartref yn parhau i fod yn berthnasol:

9.2 Bydd yr Awdurdod yn darparu cyngor i fusnesau ar gydymffurfiaeth gyfreithiol os yw'n gweithredu fel yr awdurdod cartref/tarddiad.

9.3 Bydd yr Awdurdod yn ystyried unrhyw wybodaeth neu gyngor y mae wedi'i dderbyn trwy unrhyw gysylltiad ag awdurdodau cartref a/neu awdurdodau tarddu.

9.4 Bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag awdurdod cartref a/neu awdurdod tarddu busnes y mae ei fwyd anifeiliaid/bwyd a/neu safle wedi bod yn destun ymyrraeth, a bod yna droseddau wedi'u nodi sy'n ymddangos eu bod yn gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau canolog y busnes.

9.5 Yn ystod ymchwiliad i gŵyn, bydd yr Awdurdod yn cysylltu â'r awdurdod cartref a/neu awdurdod tarddu ar faterion a all fod yn gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau canolog y busnes.

9.6 Bydd yr Awdurdod yn cysylltu ag awdurdod cartref a/neu awdurdod tarddu busnes mewn perthynas â samplau anfoddhaol a all fod yn gysylltiedig â pholisïau a gweithdrefnau canolog y busnes.

9.7 Ar ôl cysylltu ag unrhyw awdurdod cartref a/neu awdurdod tarddu, bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r awdurdod hwnnw am y canlyniad.

10 Cyngor i Fusnesau

10.1 Gweithredwr y busnes sy'n gyfrifol am gydymffurfio â chyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid. Fel rhan o'i ddull gorfodi, bydd yr Awdurdod yn gweithio gyda busnesau i'w helpu i gydymffurfio â deddfwriaeth bwyd a bwyd anifeiliaid. Gall hyn gynnwys, er enghraifft:

- cynnal cyrsiau hyfforddi/seminarau (yn unol â gofynion y Codau Ymarfer ar gyfer osgoi gwrthdaro buddiannau);
- darparu cyngor yn ystod ymyriadau;
- dosbarthu taflenni gwybodaeth busnes;
- ymateb i ymholiadau;
- cynnal trafodaethau gyda busnesau trwy bartneriaethau busnes lleol neu fforymau tebyg.

11 Cronfa Ddata Sefydliadau Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

11.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu cronfa ddata o'r sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ei ardal.

11.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn wedi'i dogfennu i sicrhau bod ei gronfa ddata o safleoedd bwyd a bwyd anifeiliaid yn gywir, yn ddibynadwy ac yn gyfredol, gan fod cywirdeb cronfeydd data o'r fath yn hanfodol er mwyn darparu a monitro gwasanaethau.

12 Arolygu a Samplu Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

12.1 Bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod bwyd a bwydydd anifeiliaid yn cael eu harolygu ym mhob sefydliad bwyd a bwyd anifeiliaid, yn unol â deddfwriaeth a Chodau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, i sicrhau bod bwyd a bwyd anifeiliaid yn bodloni safonau a bennir gan y gyfraith.

12.2 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau priodol mewn perthynas ag unrhyw ddiffyg cydymffurfiaeth yn unol â pholisi gorfodi'r Awdurdod.

12.3 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer arolygu bwyd a bwydydd anifeiliaid.

12.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu polisi a rhaglen samplu wedi'u dogfennu a fydd yn cyd-fynd ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir yn ganolog neu ganllawiau a Chodau Ymarfer perthnasol, a bydd yn cynnwys cyfeiriad at ei ddull o weithredu unrhyw raglen samplu genedlaethol berthnasol a gydgysylltir yn ganolog gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

NODER: Dylai'r Awdurdod ystyried natur ei sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid ac, os yn berthnasol, natur bwyd a bwyd anifeiliaid sy'n cael eu mewnforio, ac unrhyw raglen samplu berthnasol a gydgysylltir yn ganolog gan yr ASB, Cydgysylltwyr Gwasanaethau Rheoliadol yr Awdurdodau Lleol (LACORS) a'r Asiantaeth Diogelu Iechyd, Fforwm Microbiolegol Bwyd Cymru a'r Gwasanaeth Iechyd Cyhoeddus Cenedlaethol yng Nghymru, SFELC (Scottish Food Enforcement Liaison Committee) yn yr Alban a'r Public Health Laboratory yng Ngogledd Iwerddon.

12.5 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer caffael neu brynu samplau, sicrhau dilyniant tystiolaeth ac atal dirywiad neu ddifrod i samplau o dan ei reolaeth yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

12.6 Bydd yr Awdurdod yn samplu yn unol â'i bolisi, ei weithdrefnau a'i raglen samplu.

12.7 Bydd yr Awdurdod yn cymryd camau priodol yn unol â'i bolisi gorfodi os ystyrir nad yw canlyniadau'r samplau'n foddhaol.

12.8 Os yn briodol, bydd yr Awdurdod yn sicrhau bod Dadansoddwr Cyhoeddus a/neu Ddadansoddwr Amaethyddol yn cael ei benodi i gynnal archwiliadau a dadansoddiadau o samplau bwyd a bwyd anifeiliaid. Wrth wneud y penodiadau hyn, caiff yr holl ofynion cyfreithiol a Chodau Ymarfer perthnasol eu bodloni. Dylai'r holl samplau i'w harchwilio gael eu cyflwyno i Archwilydd Bwyd mewn labordy sydd wedi'i achredu at ddibenion archwilio.

13 Rheoli ac Ymchwilio i Achosion o Glefydau Heintus yn Ymwneud â Bwyd

13.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn wedi'i dogfennu sydd wedi'i datblygu gyda'r holl sefydliadau perthnasol i reoli achosion o glefydau heintus yn ymwneud â bwyd yn unol â chanllawiau canolog perthnasol.

13.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn wedi'i dogfennu sydd wedi'i datblygu'n unol â chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog, a chyda'r holl sefydliadau perthnasol, i ymchwilio i achosion o glefydau heintus yn ymwneud â bwyd.

13.3 Cedwir pob cofnod yn ymwneud â rheoli ac ymchwilio i achosion o glefydau heintus yn ymwneud â bwyd am o leiaf 6 blynedd.

14 Digwyddiadau Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

14.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn wedi'i dogfennu ar gyfer cyhoeddi ac ymateb i rybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol. Ar gyfer pwyntiau mynediad i'r DU, dylai'r weithdrefn hon hefyd fynd i'r afael â hysbysiadau RASFF a phenderfyniadau perthnasol y CE. Bydd y weithdrefn hon hefyd yn cynnwys trefniadau cyswllt y tu allan i oriau.

14.2 Bydd yr Awdurdod yn cynnal system gyfrifiadurol sy'n gallu derbyn rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid.

14.3 Bydd yr Awdurdod yn dogfennu ei ymateb i bob rhybudd bwyd a bwyd anifeiliaid, a chanlyniad pob rhybudd.

14.4 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn wedi'i dogfennu ar gyfer ymateb i ddigwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid .

NODER: Gellir hysbysu am ddigwyddiadau diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid fel rhan o'r systemau rhybuddion bwyd a bwyd anifeiliaid (gweler 14.1 uchod) neu fel hysbysiadau ar wahân gan yr ASB.

14.5 Bydd yr Awdurdod yn rhoi gwybod i'r ASB am unrhyw ddigwyddiad lleol difrifol neu broblem diogelwch bwyd anifeiliaid/bwyd ehangach yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol.

15 Gorfodi

15.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu polisi gorfodi wedi'i ddogfennu, yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol eraill. Bydd y polisi hwn yn cael ei gymeradwyo gan y fforwm Aelodau Awdurdod Lleol perthnasol neu, os yw'r gwaith o gymeradwyo a rheoli cynlluniau darparu gwasanaethau wedi'i ddirprwyo i uwch swyddogion, yr uwch swyddog perthnasol.

NODER: Dylai'r polisi gorfodi neu grynodeb cywir fod ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd yn ardal yr Awdurdod.

15.2 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau wedi'u dogfennu ar gyfer camau dilynol a chamau gorfodi yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau swyddogol.

15.3 Bydd yr Awdurdod yn gorfodi cyfraith bwyd yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

15.4 Gwneir pob penderfyniad ar gamau gorfodi ar ôl ystyried polisi gorfodi'r Awdurdod. Caiff y rhesymau dros unrhyw amrywiad o'r meini prawf a amlinellir yn y polisi gorfodi eu dogfennu.

16 Cofnodion ac Adroddiadau Ymyriadau/Arolygiadau

16.1 Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion cywir y gellir eu hadfer yn hawdd ar yr holl sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ei ardal, ac ar yr holl wiriadau perthnasol ar fwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u mewnforio, yn unol â Chodau Ymarfer a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog. Bydd y cofnodion hyn yn cynnwys adroddiadau ar yr holl ymyriadau/arolygiadau, adroddiadau ar gydymffurfiaeth â gofynion cyfreithiol a wnaed gan y swyddog awdurdodedig, manylion camau a gymerwyd lle nodwyd diffyg cydymffurfiaeth, manylion unrhyw gamau gorfodi a gymerwyd, canlyniadau unrhyw waith samplu, manylion unrhyw gwynion ac unrhyw gamau a gymerwyd a gwybodaeth berthnasol am gofrestru a chymeradwyo bwyd a/neu fwyd anifeiliaid. Dylai'r awdurdod hefyd gofnodi unrhyw amrywiad i weithdrefnau gosod, a'r rhesymau drostynt.

16.2 Cedwir pob cofnod am o leiaf 6 blynedd oni bai y nodir y dylid eu cadw am gyfnod hirach o ganlyniad i achos cyfreithiol neu adolygiad gan Ombwdsmon Llywodraeth Leol.

17 Cwynion am y Gwasanaeth

17.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefn gwyno ar gyfer cwynion am y gwasanaeth, ac yn sicrhau ei bod ar gael i'r cyhoedd a busnesau bwyd a bwyd anifeiliaid yn ei ardal.

17.2 Bydd yr Awdurdod yn ymchwilio i gwynion a dderbynnir yn unol â chanllawiau perthnasol a gyhoeddir yn ganolog.

17.3 Gwneir cofnod o'r holl gwynion a dderbynnir a'r camau a gymerir gan yr Awdurdod mewn ymateb i'r cwynion hynny.

18 Cysylltu â Sefydliadau Eraill

18.1 Bydd yr Awdurdod yn gwneud trefniadau i gysylltu ag awdurdodau cyfagos ac unrhyw gorff priodol arall i hwyluso gorfodi effeithlon, effeithiol a chyson yn unol â'r Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

18.2 Bydd yr Awdurdod hefyd yn gwneud trefniadau i gysylltu â sefydliadau'r llywodraeth neu gyrff rheoli swyddogol eraill gyda'r nod o wneud gwaith gorfodi'n fwy effeithlon a lleihau'r baich ar fusnesau.

19 Monitro Mewnol

19.1 Bydd yr Awdurdod yn sefydlu, cynnal a gweithredu gweithdrefnau monitro mewnol wedi'u dogfennu yn unol ag Erthygl 8 o Reoliad (CE) 882/2004 (Rheolaethau Swyddogol ar Fwyd a bwyd anifeiliaid), y Codau Ymarfer perthnasol a chanllawiau a gyhoeddir yn ganolog.

19.2 Bydd yr Awdurdod yn dilysu ei gydymffurfiaeth â'r Safon hon, deddfwriaeth berthnasol, y Codau Ymarfer perthnasol, canllawiau a gyhoeddir yn ganolog a pholisïau a gweithdrefnau'r Awdurdod ei hun.

19.3 Gwneir cofnod o'r holl waith monitro mewnol. Dylid cadw'r cofnod hwn am o leiaf 2 flynedd.

20 Adolygiad gan Drydydd Parti neu Gymheiriaid

20.1 Bydd yr Awdurdod yn cymryd rhan mewn unrhyw broses adolygu briodol gan drydydd parti neu gymheiriaid yn erbyn y Safon.

20.2 Os bydd yr Awdurdod yn rhan o brosesau o'r fath, dylai hyn gynnwys gweithredu camau adfer effeithiol i fynd i'r afael â diffyg cydymffurfiaeth â'r Safon a nodwyd trwy'r prosesau.

21 Hyrwyddo Safonau a Diogelwch Bwyd a Bwyd Anifeiliaid

21.1 Bydd yr Awdurdod yn hyrwyddo safonau a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid. Er enghraifft, gall hyn gynnwys:

* gwobrau neu gystadlaethau safonau a diogelwch bwyd;

* cymryd rhan mewn ymgyrchoedd a gydlynir ym maes safonau a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid;

* partneriaethau gyda sefydliadau gwirfoddol, y gymuned ac asiantaethau eraill gyda'r nod o dargedu grwpiau penodol;

* targedu gwybodaeth am faterion safonau a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid;

* cefnogi hyfforddiant safonau a diogelwch bwyd mewn ysgolion a cholegau;

* codi ymwybyddiaeth o reolaethau bwyd wedi'i fewnforio (mae hyn yn berthnasol i bob awdurdod, nid y rhai sy'n cwmpasu pwyntiau mynediad yn unig).

21.2 Bydd yr Awdurdod yn cadw cofnodion o waith hyrwyddo safonau a diogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid.

Pennod Tri: Monitro Awdurdodau Lleol

Cyflwyniad

1 Fel rhan o'i dyletswyddau o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999, ac yn unol â gofynion Rheoliad (CE) Rhif 882/2004 ar reolaethau swyddogol, mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd yn gyfrifol am fonitro ac adrodd ar berfformiad awdurdodau gorfodi o ran gorfodi deddfwriaeth berthnasol ar ddiogelwch bwyd a bwyd anifeiliaid .

2 Felly, mae'r Asiantaeth yn casglu data allweddol ar sut mae pob awdurdod lleol yn gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid yn flynyddol. Gwneir hyn drwy gyfrwng y System Monitro Camau Gorfodi Awdurdodau Lleol (LAEMS) a gyflwynwyd ym mis Ebrill 2008, ac sy'n berthnasol o flwyddyn ariannol 2008/09 ymlaen.

Dogfennau Allweddol

3 Mae'r dogfennau perthnasol i arwain awdurdodau lleol ar sut i roi LAEMS ar waith ar gael ar wefan yr Asiantaeth: http://food.gov.uk/enforcement/

Meysydd data a gesglir

4 Mae'r meysydd data sy'n cael eu casglu gan LAEMS yn cynnwys:

- nifer y sefydliadau bwyd a bwyd anifeiliaid, wedi'u categoreiddio yn ôl math;

- nifer yr ymyriadau/arolygiadau ar y gweill, yn unol â'r Codau Ymarfer, a nifer yr ymyriadau/arolygiadau wedi'u cynnal;

- y sgoriau a ddyfarnwyd:

  (a) ar gyfer hylendid bwyd:
  - cydymffurfio â'r gyfraith, hylendid;
  - cydymffurfio â'r gyfraith, strwythur;
  - hyder mewn systemau rheoli;

  (b) ar gyfer safonau bwyd:
  - i ba raddau y mae sefydliadau yn cydymffurfio yn bresennol;
  - hyder mewn systemau rheoli

  (c) ar gyfer cyfraith bwyd:
  - i ba raddau y mae sefydliadau yn cydymffurfio yn bresennol;
  - hyder mewn systemau rheoli.

• nifer y samplau bwyd sydd wedi'u dadansoddi, wedi'u categoreiddio yn ôl math o ddadansoddiad;

• nifer y samplau bwyd anifeiliaid wedi'u categoreiddio yn ôl math o ddadansoddiad;

• nifer y camau gorfodi sydd wedi'u cymryd, wedi'u categoreiddio yn ôl math o gam gorfodi, a'r math o reswm am y cam hwnnw.

5 Mae LAEMS yn casglu data ar gyfer pob sefydliad bwyd anifeiliaid/bwyd yn ardal yr awdurdod, ac yn darparu crynodebau cyffredinol y mae'n rhaid i'r Awdurdod eu diwygio, eu dilysu a chytuno arnynt.

Defnyddio'r data

6 Bydd yr Asiantaeth yn defnyddio'r data a ddarperir i asesu lefelau camau awdurdodau o ran darparu rheolaethau swyddogol, a chanlyniadau (o ran lefelau cydymffurfio busnesau) a gyflawnir drwy'r camau hynny. Yr hyn a ddefnyddir i fesur canlyniadau ers 2008/09 yw canran y sefydliadau bwyd dan ofal yr Awdurdod yr ystyrir eu bod yn "cydymffurfio'n eang" â chyfraith bwyd, yn seiliedig ar y sgoriau manwl a ddyfernir gan swyddogion awdurdodedig yr Awdurdod. Mae manylion pellach wedi'u hamlinellu mewn dogfennau perthnasol ar LAEMS ar wefan yr Asiantaeth, ac yn y Codau Ymarfer ar Gyfraith Bwyd.

7 Bydd yr Asiantaeth yn defnyddio'r data a gesglir trwy LAEMS at y dibenion canlynol:

- adrodd ar weithgareddau rheoli bwyd a bwyd anifeiliaid yn y DU i'r Undeb Ewropeaidd fel rhan o'r adroddiadau blynyddol ar weithredu Cynllun Rheoli Cenedlaethol y DU o dan Reoliad (CE) Rhif 882/2004;

- adrodd ar ddata cenedlaethol ar weithgareddau, tueddiadau ac (ar gyfer busnesau bwyd) lefelau cydymffurfio mewn perthynas â rheoli bwyd a bwyd anifeiliaid i Fwrdd yr ASB;

- nodi lefelau cydymffurfio a gyflawnir gan fusnesau (mater allweddol i'r Asiantaeth) a gweithgarwch rheoli bwyd fesul awdurdod unigol er mwyn:

  - sicrhau bod gwasanaethau cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid effeithiol ar waith yn lleol;
  - llywio rhaglenni archwilio'r Asiantaeth;
  - darparu meincnodau ar gyfer ALlau;
  - helpu i lywio strategaeth orfodi'r DU.

- Ar gyfer ALlau yn Lloegr, asesu perfformiad yn erbyn NI 184, y Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer lefelau cydymffurfio busnesau – sy'n rhan o fframwaith perfformiad asesiad ardal cynhwysfawr.

Caiff manylion y data monitro a gyflwynir gan bob ALl eu cyhoeddi'n flynyddol ar wefan yr ASB.

8 Bydd yr Asiantaeth yn ymgynghori ag Awdurdodau a rhanddeiliaid eraill ar unrhyw newidiadau arfaethedig i'r defnydd a wneir o ddata monitro.

Diffiniadau allweddol

9 Mae'r diffiniadau allweddol a ddefnyddir yn LAEMS, ac yn ei ddadansoddiadau, wedi'u hamlinellu ar wefan yr Asiantaeth drwy http://www.food.gov.uk/enforcement/

10 Mae'r diffiniadau hyn yn cynnwys:

- categorïau o sefydliadau bwyd anifeiliaid/bwyd;
- categorïau o ymyriadau;
- mathau o gamau gorfodi;
- rhesymau dros gamau gorfodi;
- mathau o samplau;
- mathau o waith cynghori ac addysgol

Pennod Pedwar: Cynllun Archwilio ar gyfer Awdurdodau Lleol

Cyflwyniad

1 Fel rhan o'i dyletswydd o dan Ddeddf Safonau Bwyd 1999 i fonitro perfformiad awdurdodau gorfodi, mae gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd bwerau i ofyn am wybodaeth yn ymwneud â chamau gorfodi ac i gyflwyno adroddiadau i unrhyw awdurdod gorfodi ar eu perfformiad o ran gorfodi deddfwriaeth berthnasol. Mae hefyd yn ofynnol i'r Asiantaeth archwilio awdurdodau gorfodi yn unol â Rheoliad (CE) Rhif 882/2004, a dilyn rheoliadau, penderfyniadau a chanllawiau perthnasol y CE.

2 Mae cynllun archwilio'r Cytundeb Fframwaith yn amlinellu'r trefniadau y bydd yr Asiantaeth yn eu gwneud i archwilio gweithgareddau gorfodi awdurdodau lleol er mwyn helpu i sicrhau bod awdurdodau lleol yn darparu gwasanaeth effeithiol i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid.

Amcanion

3. Mae amcanion y cynllun archwilio fel a ganlyn:

- helpu i ddiogelu iechyd y cyhoedd ac iechyd anifeiliaid drwy hyrwyddo gwaith gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid lleol effeithiol;
- cynnal a gwella hyder defnyddwyr;
- cynnal rhaglenni archwilio seiliedig ar risg sy'n darparu dull o nodi tangyflawniad ym maes gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid mewn awdurdodau lleol;
- helpu i nodi a dosbarthu arferion da i wella cysondeb;
- darparu gwybodaeth i helpu i lunio polisïau'r Asiantaeth;
- hyrwyddo cydymffurfiaeth â "Gorfodi Cyfraith Bwyd a bwyd anifeiliaid – y Safon" (y Safon) ac unrhyw ganllawiau canolog perthnasol neu Godau Ymarfer statudol;
- hyrwyddo gwaith hunan-reoleiddio ac Adolygu gan Gymheiriaid fel Archwilio Rhyng-awdurdod (IAA);
- nodi gwelliant parhaus ac arferion da i'w dosbarthu'n ehangach.

Cwmpas

4 Bydd y rhaglen archwilio'n cwmpasu'r holl awdurdodau lleol. Bydd y cynllun archwilio'n asesu sut mae awdurdodau lleol yn cydymffurfio â'r Safon ac unrhyw ganllawiau cysylltiedig. Bydd y trefniadau'n cwmpasu'r amrywiaeth lawn o weithgareddau gorfodi cyfraith bwyd a bwyd anifeiliaid mewn awdurdodau lleol h.y. safonau bwyd, diogelwch bwyd, bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'i fewnforio, mewn pwyntiau mynediad lle mae bwyd a bwyd anifeiliaid wedi'u mewnforio'n cael eu trafod a'u gwirio gan awdurdodau mewndirol.

Dogfennau Allweddol

5 Mae'r dogfennau allweddol ar weithrediad manwl cynllun archwilio'r Asiantaeth, gan gynnwys amserlenni'r broses a threfniadau cyhoeddi'r adroddiadau archwilio, ar gael ar wefan yr Asiantaeth drwy: http://www.food.gov.uk/enforcement/auditscheme/

Cwynion ac anghydfod

6 Mae mecanweithiau ar waith fel y gall awdurdodau lleol ddatrys cwynion ac anghydfod sy'n codi o archwiliadau o wasanaeth bwyd a bwyd anifeiliaid a gynhelir gan yr Asiantaeth. Mae manylion ar wefan yr Asiantaeth.

Cyhoeddi adroddiadau archwilio

7 Bydd gwybodaeth am berfformiad gorfodi awdurdodau lleol ar gael i'r cyhoedd. Cyflwynir adroddiadau archwilio i awdurdodau lleol, a disgwylir i'r rheiny gael eu cyflwyno i aelodau etholedig yn y fforwm cyhoeddus lleol priodol. Rhoddir copïau o adroddiadau archwilio terfynol ar wefan yr Asiantaeth Safonau Bwyd.

Camau dilynol

8 Bydd camau dilynol yr ASB yn dibynnu ar y lefel a'r math o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd a'r cynllun gweithredu a gynhyrchwyd gan yr awdurdod lleol. O dan rai amgylchiadau, bydd trefniadau dilynol yr Asiantaeth yn cynnwys ailymweld ag awdurdodau lleol. Os bydd y trefniadau hyn yn nodi bod awdurdod lleol yn methu gweithredu ei gynllun gweithredu'n rhannol neu'n gyfan gwbl, ystyrir camau dilynol fesul achos.

Cysylltiadau

9 Mae manylion swyddogion cyswllt swyddfeydd yr Asiantaeth yn Aberdeen, Belfast, Caerdydd a Llundain ar wefan yr Asiantaeth.

Adolygiad o'r cynllun archwilio

10 Bydd yr Asiantaeth yn parhau i adolygu egwyddorion, gweithrediad a chwmpas y cynllun archwilio.